# Datblygu a rhoi cynlluniau ar waith i wella marchnata a gwerthu ar gyfer y busnes diwydiannau’r tir

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn cynnwys datblygu a rhoi cynlluniau ar waith i wella marchnata a gwerthu ar gyfer y busnes diwydiannau'r tir.

Bydd hyn yn cynnwys gwneud ymchwil a chynllunio a gosod targedau ar gyfer eich gwerthu a'ch marchnata. Bydd angen i chi ddeall eich marchnad a sut i werthu eich nwyddau neu wasanaethau am elw.

Mae'r safon hefyd yn cynnwys pennu llwyddiant eich marchnata a monitro eich gwerthiannau.

Mae'r safon hon ar gyfer y rheiny sy'n gyfrifol am ddatblygu a rhoi cynlluniau ar waith ar gyfer marchnata a gwerthu.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. cadarnhau pa gynnyrch neu wasanaethau y mae angen i'ch busnes diwydiannau'r tir eu marchnata a'u gwerthu
2. ymchwilio i'r farchnad ar gyfer eich maes busnes
3. cael gwybodaeth am weithgareddau eich cystadleuwyr
4. dadansoddi eich ymchwil i benderfynu a oes cyfleoedd ar gyfer eich cynnyrch neu wasanaethau presennol neu bosibl
5. adolygu eich canfyddiadau yn erbyn y targedau busnes
6. penderfynu beth rydych eisiau ei gyflawni trwy farchnata a gwerthu a gwneud i hyn gyd-fynd â'r targedau busnes
7. paratoi cyllideb fanwl ar gyfer marchnata
8. datblygu cynllun i wella marchnata, yn cynnwys yr holl wybodaeth a ddefnyddir i wneud eich penderfyniadau
9. paratoi cyllideb fanwl ar gyfer gwerthu
10. datblygu cynllun i wella gwerthiannau yn seiliedig ar eich archwiliad o'r farchnad a'ch targedau busnes
11. penderfynu sut byddwch yn mesur a yw eich cynlluniau gwerthu a marchnata yn llwyddiannus
12. sicrhau bod pawb sydd yn gysylltiedig yn gallu gweithredu'r camau i farchnata a gwerthu'r cynnyrch neu wasanaethau
13. rhoi cynlluniau ar waith i wella marchnata a gwerthu
14. monitro cynnydd marchnata a gwerthu a chyfathrebu'r wybodaeth hon i'r rheiny y mae angen eu hysbysu
15. nodi unrhyw gyfleoedd newydd neu fygythiadau a newid y cynlluniau fel bo angen
16. gweithredu pan fydd marchnata neu werthiannau yn wahanol i'r cynllun
17. monitro gwasanaeth cwsmeriaid yn cynnwys cwynion, sylwadau neu awgrymiadau

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. pa gynnyrch neu wasanaethau y gall eich busnes diwydiannau'r tir eu cyflwyno
2. ble i gael gwybodaeth am y farchnad ar gyfer eich maes busnes chi
3. sut i gael gwybodaeth am eich cystadleuwyr
4. sut i ddadansoddi canlyniadau eich canfyddiadau
5. sut i wneud i'ch targedau busnes gyd-fynd â'ch canfyddiadau
6. sut i osod targedau ar gyfer marchnata fydd yn ystyried eich sefyllfa yn y farchnad, gwerthiannau a maint gros yr elw, llif arian a thueddiadau cwsmeriaid
7. yr hyn y dylid ei gynnwys mewn cynllun i wella marchnata
8. sut i osod targedau ar gyfer gwerthu, yn cynnwys maint gwerthiannau, maint yr elw, llif arian a chadw cleientiaid blaenorol ac ennill busnes newydd
9. yr hyn y dylid ei gynnwys mewn cynllun i wella gwerthiannau
10. sut i fesur a ydych yn bodloni targedau gwerthu a marchnata
11. pwy sydd angen gwybod am eich cynlluniau a'ch cynnydd a'u deall
12. sut i roi cynlluniau ar waith a chael y gorau gan y rheiny sydd yn gysylltiedig â gwerthu a marchnata'r cynnyrch neu'r gwasanaethau
13. sut i fonitro bodlonrwydd cwsmeriaid
14. y ddeddfwriaeth a'r rheoliadau perthnasol a sut maent yn berthnasol i'ch cynlluniau
15. sut i wneud newidiadau i'r cynlluniau gwerthu a marchnata

## Geirfa

Gallai **cynllun marchnata** gynnwys:

- beth yw marchnata
- yr hyn y mae cwsmeriaid ei eisiau a'i angen
- eich rhagolygon ar gyfer y busnes
- y mathau o farchnata i'w defnyddio
- beth fydd cost marchnata
- beth yw'r cynnyrch a'r gwasanaethau a beth fydd eu cost
- sut a ble bydd cynnyrch a/neu wasanaethau yn cael eu gwerthu
- manylion cynlluniau sicrhau ansawdd, lle y bo'n briodol

Gallai **cynllun gwerthu** gynnwys

- beth yw'r farchnad
- yr hyn y mae cwsmeriaid ei eisiau a'i angen
- y gwerthiannau yr ydych yn dymuno eu cyflawni
- targed maint yr elw
- cost gwerthu
- ble bydd cynnyrch a/neu wasanaethau yn cael eu gwerthu

Bydd hyn yn cynnwys chi yn gwneud **ymchwil** i bennu:

- beth yw'r farchnad bresennol
- y cyfleoedd posibl ar gyfer cynnyrch neu wasanaethau newydd
- yr hyn y mae cwsmeriaid ei eisiau a'i angen
- sut byddwch yn gwerthu eich cynnyrch neu wasanaethau
- y math/au o farchnata i'w defnyddio, yn cynnwys defnyddio technolegau newydd fel y cyfryngau cymdeithasol
- beth fydd cost marchnata a ffynonellau marchnata am ddim
- beth fydd cost eich cynnyrch neu wasanaethau

- eich rhagolygon ar gyfer y busnes

LANCS46

Datblygu a rhoi cynlluniau ar waith i wella marchnata a gwerthu ar gyfer y busnes diwydiannau'r tir

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 30 Maw 2020 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 30 Maw 2025 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANCS46 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Amaethyddiaeth, Garddwriaeth a Gofal Anifeiliaid, Cadwraeth Amgylcheddol |
| **Cyfres/Set** | Rheolaeth Amaethyddol, Garddwriaeth, Cadwraeth Amgylcheddol |
| **Geiriau Allweddol** | gwerthiannau; marchnata; gwelliant; cynlluniau |